


Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

2016 - 2019

Dogfen Gryno



Cynnwys

Rhagair

1. Pam mae chwarae'n bwysig
2. Yr Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
3. Methodoleg
4. Canfyddiadau'r Ymgynghoriadau
5. Mater A: Poblogaeth
6. Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
7. Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae
8. Mater Ch: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth
9. Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
10. Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth
11. Mater E: Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae
12. Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
13. Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol
14. Casgliad
15. Y Ffordd Ymlaen

Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Dogfen Gryno 2016

Rhagair

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod pwysigrwydd cyfleoedd chwarae ym mywydau plant a phobl ifanc ledled y sir.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd chwarae a hoffai i bob plentyn a pherson ifanc fod yn hapus ac yn iach ac i fwynhau ei amser rhydd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin gael profiadau chwarae cyffrous, symbylol a chreadigol, trwy ddarparu cyfleoedd chwarae o ansawdd da, dan oruchwyliaeth a heb oruchwyliaeth, sy'n cynnig her.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod chwarae'n rhan hanfodol o fywydau plant a phobl ifanc, ac yn sylweddoli bod plant, wrth chwarae, yn dewis yr hyn maent eisiau ei wneud eu hunain, sut maent eisiau ei wneud a pham maent eisiau ei wneud. Mae chwarae'n rhan annatod o ddatblygiad emosiynol a chorfforol iach, i'r gymdeithas yn ogystal ag i'r plant a'r bobl ifanc hwythau.

Fel Awdurdod Lleol ac fel penderfynwyr, mae dyletswydd arnom i ddiwallu anghenion chwarae'r plant a phobl ifanc sy'n byw yn y sir hon, er mwyn sicrhau na chânt eu hamddifadu o'r profiadau a chyfleoedd hanfodol sy'n gosod y sylfeini hollbwysig ar gyfer dysgu, iechyd a lles yn y dyfodol.

Cynhyrchir yr adroddiad hwn gyda'r diben o fod yn ddogfen gryno hawdd ei darllen ac ynddi ganfyddiadau Aseiad Sir Gaerfyrddin o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 ac mae'n cynnwys:

- Pam mae chwarae'n bwysig
- Gwybodaeth am y Ddyletswydd Statudol
- Y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth gynnal a chwblhau'r aseiad
- Canfyddiadau allweddol yr aseiad
- Y ffyrdd ymlaen



Stefan Smith

Pennaeth Gwasanaethau Plant

1. Pam mae chwarae'n bwysig

Ni ddylid tanbriso chwarae plant – trwy chwarae mae plant yn datblygu sgiliau bywyd hollbwysig, ac yn paratoi eu hymennydd ar gyfer heriau bod yn oedolion. Mae chwarae'n cyfrannu at iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant a'u gallu i ddysgu ac ymgysylltu ag addysg, ac felly'n cyfrannu at les eu teuluoedd a'r gymuned yn gyfan.

Mae chwarae'n cael effaith ar ddatblygiad corfforol a chemegol yr ymennydd. Mae ansawdd profiadau plant wrth chwarae'n cael effaith uniongyrchol ar ddatblygiad eu hymennydd a'u gallu i ddysgu. O 2 flwydd oed i lencyndod cynnar, mae twf cyflym yn nifer y nerfau a'r llwybrau niwral yn yr ymennydd; mae maint y twf hwn yn dibynnu ar ansawdd profiadau plentyn ac mae amgylchedd a chwarae'n cyfrannu at hyn.



Mae chwarae'n rhan annatod o ddatblygiad emosiynol a chorfforol iach, i'r gymdeithas yn ogystal ag i'r plant a'r bobl ifanc hwythau. Mae cyfleoedd chwarae hygyrch o ansawdd da'n helpu i leihau effeithiau tlodi ar fywydau plant a phobl ifanc ac maent hefyd yn ffordd o leihau'r anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd a all fforddio gweithgareddau chwarae costus a rhai na allant ac felly lleihau tlodi profiad i bob plentyn. Yn ei dogfen Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2011), mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr hawl i chwarae a'i gyfraniad at ddatblygiad a gwytnwch plant. Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar chwarae fel rhan hanfodol o ddatblygiad plant ac yn rhywbeth sy'n gallu bod yn ffactor amddiffynnol cryf ym mywydau plant. Gall chwarae gysgodi plant rhag agweddau negyddol tlodi, a chaniatáu iddynt ddatblygu eu gwytnwch yn erbyn anawsterau ac ansicrwydd yn eu bywydau.

Mae chwarae'n rhan o blentyndod a drysorir ac mae'n cynnig i blant fuddion datblygiadol pwysig ac i rieni'r cyfle i ymgysylltu'n llawn â'u plant. Fodd bynnag, mae nifer o rymoedd yn gweithredu gyda'i gilydd i leihau, i bob pwrpas, gallu llawer o blant i fwynhau buddion chwarae. Mae ymgynghoriadau gyda rhieni Sir Gaerfyrddin wedi dangos inni fod ofn dieithriaid a herwgipio plant yn cael effaith negyddol iawn ar brofiadau chwarae eu plant a bod llawer o rieni eisiau cadw plant yn ddiogel y tu mewn yn hytrach na gadael iddynt fynd allan i chwarae.

Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod profiadau chwarae o ansawdd da yn helpu i wella iechyd meddwl plant. Dywedodd y Sefydliad Iechyd Meddwl fod cyfleoedd cyfyngedig i blant chwarae yn yr awyr agored, neu i gymryd rhan mewn prosiectau chwarae dan oruchwyliaeth, yn ffactor achosol yn y cynnydd mewn afiechyd meddwl ymysg plant a phobl ifanc. Dros y 4 blynedd diwethaf, mae nifer y plant sydd wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru wedi mwy na dyblu. At hynny, mae ffordd o fyw eisteddog plant a diffyg gallu i achub ar gyfleoedd chwarae yn cyfrannu at y cynnydd brawychus mewn gordewdra ymysg plant; mae 26.2% o blant 4-5 oed yn Sir Gaerfyrddin dros eu pwysau neu'n ordew.

2. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth o greu amgylchedd yng Nghymru lle mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd chwarae o ansawdd da.

Er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys adran o'r enw "Cyfleoedd Chwarae" yn ei Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a gafodd Gydsyniad Brenhinol yn 2012.

O ganlyniad i hyn, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ledled Cymru asesu, sicrhau a chyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae.

Mae Pennod 2, Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn nodi'r ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol mewn perthynas â Chyfleoedd Chwarae.

Mae'r dyletswyddau fel a ganlyn:

- 1) Rhaid i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc yn ei ardal yn unol â'r rheoliadau
- 1) Sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant a phobl ifanc, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol
- 2) Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch cyfleoedd chwarae yn ei ardal i blant a phobl ifanc
- 3) Diweddarau'r wybodaeth a gyhoeddir

Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i Awdurdod Lleol hefyd roi sylw i anghenion:

- a) Plant a phobl ifanc sy'n anabl
- b) Plant a phobl ifanc o wahanol oedrannau

Cyflwynodd Cyngor Sir Caerfyrddin yr Asesiad cyntaf o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ym mis Mawrth 2013.

Cyflwynwyd yr ail Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2016.

Yn cyd-fynd â phob Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mae Cynllun Gweithredu sy'n nodi sut i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Cyflwynir Cynlluniau Gweithredu bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru a mesurir cynnydd yng nghanol ac ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae pecyn cymorth ar gael i Awdurdodau Lleol i'w cynorthwyo â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ynghyd â'r ddogfen – "Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae: Cyfarwyddyd Statudol". Mae'r cyfarwyddyd hwn yn nodi sut y dylai Awdurdodau Lleol gynnal yr asesiadau a'r materion mae angen eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Mae'r materion sydd i gael eu hystyried wrth gwblhau'r asesiad fel a ganlyn:

Mater A: Poblogaeth

Mater B: Diwallu anghenion amrywiol

Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

Mater Ch: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth

Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae

Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth

Mater E: Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae

Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys

Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol



3. Methodoleg

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r dull a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

- **Dadansoddiad bwrdd gwaith**

Roedd y dadansoddiad hwn yn golygu adolygu'r wybodaeth bresennol a gedwir mewn perthynas â chyfleoedd chwarae trwy chwilio'r rhyngwyd, chwilio cronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a mapio'r ddarpariaeth trwy iLocal.

- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cynnwys cynrychiolwyr o adrannau yn yr Awdurdod Lleol a rhai partneriaid allanol. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis ac roedd gan bob aelod gyfrifoldeb am gwblhau rhan o'r asesiad oedd yn berthnasol i'w faes gwaith.

- **Ymgynghoriadau**

Er mwyn i gyfleoedd chwarae fodloni gofynion plant mae'n hanfodol yr ymgynghorir â hwy ynghylch beth maent eisiau o weithgareddau chwarae a hamdden. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd oddi wrth Lywodraeth Cymru'n nodi y dylai'r asesiadau gael barn plant; rhieni a rhanddeiliaid eraill. Felly penderfynodd Cyngor Sir Caerfyrddin ymgynghori â'r canlynol:

- Plant
- Pobl Ifanc
- Rhieni/Gofalwyr
- Ysgolion
- Cyngorau Tref a Chymuned



4. Canfyddiadau'r ymgynghoriadau

Cymerodd **1,437** o unigolion ran yn yr ymgynghoriadau rhwng mis Awst 2015 a mis Ionawr 2016.

Canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriadau â phlant

Dywedodd 90% o'r plant fod chwarae neu gymdeithasu yn gwneud iddynt deimlo'n hapus, roedd 60% yn teimlo'n gyffrous ac roedd 49% yn bod yn egnïol. Dim ond 3% a ddywedodd eu bod wedi'u diflasu.



Mae 45% o'r plant yn teimlo y gallant wneud yr hyn maent yn hoffi ei wneud orau wrth chwarae y tu allan, a dim ond 12% sy'n teimlo nad oedd ganddynt braidd dim i'w wneud.

Sgwrsio a bod gyda ffrindiau (63%), gemau rhedeg a chwrsio (61%), mynd allan gyda'r teulu (55%) a gemau pêl (55%) a dringo (54%) oedd y gweithgareddau mwyaf poblogaidd i gymryd rhan ynddynt wrth fod allan.

Y lleoedd mwyaf poblogaidd i chwarae neu gymdeithasu i blant yw'r mannau chwarae ag offer sefydlog (49%), mannau glaswelltog neu gaeau lleol (35%) neu draethau, glan y môr a glannau afonydd (33%).

Y rhwystr mwyaf i chwarae y tu allan oedd y tywydd (49%), tywyllwch (41%), rhy brysur gyda gwaith cartref (31%).

Pan ofynnwyd iddynt sut y gallem wella eu cyfleoedd i chwarae neu gymdeithasu, dywedodd 32% gwneud eu ffyrdd yn fwy diogel, dywedodd 31% gofyn i bobl beidio â smygu a dywedodd 27% gofyn i berchnogion glirio baw cŵn.

Canfyddiadau allweddol o'r holiaduron i bobl ifanc

Dywedodd 79% o'r bobl ifanc fod cymdeithasu'n gwneud iddynt deimlo'n hapus, roedd 44% yn teimlo'n egnïol ac roedd 35% yn teimlo'n rhydd. Dim ond 5% a ddywedodd eu bod yn teimlo wedi'u diflasu wrth gymdeithasu.



Teimlai 42% y gallent wneud y pethau roeddent yn hoffi eu gwneud orau wrth gymdeithasu.

Pan oedd gan y bobl ifanc amser i gymdeithasu roedd 45% yn mwynhau sgwrsio a bod gyda ffrindiau; roedd 38% yn chwarae gemau pêl ac roedd 32% yn treulio amser gyda'r teulu.

Roedd 31% o'r bobl ifanc yn treulio eu hamser ar y maes pêl-droed / chwaraeon; 30% yn y mannau glaswelltog / caeau lleol; a 22% ar y strydoedd ar bwys eu tai.

Y rhwystrau mwyaf i gymdeithasu yw'r tywydd (35%), gwaith cartref (27%), dim byd i'w wneud (26%) a chwarae ar ddyfeisiau electronig (24%).

Pan ofynnwyd iddynt sut y gallem eu helpu, dywedodd 31% fod trafndiaeth yn broblem; dywedodd 20% gofyn i berchnogion glirio baw cŵn; mae 17% eisïau inni ddod o hyd i ffyrdd mwy diogel o groesi ffyrdd / teithio o gwmpas.

Canfyddiadau allweddol o'r holiaduron i rieni

Dyweddodd 38% fod eu plant yn chwarae y tu allan ychydig o ddiwrnodau'r wythnos a dywedodd 19% nad yw eu plant yn chwarae neu gymdeithasu y tu allan. Teimlai 42% fod gan blant prin digon o amser i chwarae, ond teimlai 31% eu bod angen mwy o amser.



Y prif leoedd i chwarae neu gymdeithasu oedd y tŷ, yr ardd, man chwarae ag offer sefydlog neu ganolfan chwarae dan do.

Dyweddodd 47% o'r rhieni fod y plant a phobl ifanc yn achub ar gyfle chwarae trwy deithio mewn car neu gerdded gydag oedolyn. Mae 44% yn poeni am ddiogelwch eu plentyn ac mae 32% yn poeni cymaint nes ei fod yn effeithio ar gyfle eu plant i chwarae.

Dyweddodd 76% o'r rhieni mai traffig ar y ffordd yw'r prif rwystr i chwarae, nododd 42% faw cŵn / sbwriel / gwydr; 41% oedolion eraill. Mae llawer o'r holiaduron a'r sesiynau grŵp ffocws yn dangos bod rhieni'n ofni y byddai dieithriaid neu bedoffiliaid yn herwgipio eu plant ac felly bod hyn yn effeithio ar faint o ryddid oedd gan eu plant i

chwarae. Dywedodd y rhieni yng nghyfarfod y grŵp ffocws yn gryf eu bod yn ofni dieithriaid a phedoffiliaid ac y byddai'r ofn hwn yn cael effaith ar gyfleoedd chwarae eu plant. Byddai'r ofnau hyn yn eu rhwystro rhag gadael i'w plant chwarae y tu allan i ffiniau'r cartref h.y. ar y stryd a hefyd roedd y rhieni'n ofni mynd â'u plant i barc lleol rhag ofn y byddai dieithriaid yn gwyllo eu plant.

Canfyddiadau allweddol o'r holiaduron i Gynghorau Tref a Chymuned

Dyweddodd y mwyafrif o'r Cynghorau Tref a Chymuned fod plant yn chwarae gartref, ar y meysydd chwarae lleol, yn y man chwarae ag offer sefydlog neu ar y strydoedd.

Dyweddodd 19% y gwaharddwyd neu y cyfyngwyd ar weithgareddau chwarae h.y. dim gemau pêl, dim hedfan barcutiaid oherwydd ceblau foltedd uchel.

Dyweddodd 59% mai'r prif rwystrau i blant chwarae oedd ffyrdd prysur.

Dyma'r rhwystrau mae'r Cynghorau Tref a Chymuned yn eu hwynebu wrth ddarparu cyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd:

- Dim lle ar gael
- Cost
- Cynnal a chadw
- Diffyg oedolion i oruchwyllo clybiau

Nid oedd gan y mwyafrif o'r Cynghorau Tref a Chymuned unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynyddu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn eu hardaloedd.

Canfyddiadau allweddol o'r arolwg ar chwarae i ysgolion

Roedd gan 90% o'r ysgolion a ymatebodd fannau glaswelltog i'r plant chwarae arnynt. Dywedodd rhai bod ganddynt waliau dringo. Yn 95% o'r ysgolion offer chwaraeon oedd yr adnoddau oedd ar gael yn ystod amser egwyl, ac offer chwarae sefydlog (80%), marciau ar wyneb (78%) a theganau (68%) oedd y mwyaf poblogaidd. Dywedodd ysgolion hefyd fod ganddynt feiciau a sgwteri fel adnoddau.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff allan ar yr iard yn ystod amser egwyl mewn rôl goruchwylio, ac roedd rhai'n hwyluso ac yn ymuno â'r chwarae. Dywedodd 74% o'r ysgolion y byddai adnoddau'n sicrhau mwy o chwarae yn ystod amser egwyl, ynghyd â hyfforddiant (66%). Dywedodd y mwyafrif o'r ysgolion y byddent yn croesawu hyfforddiant i oruchwylwyr amser cinio er mwyn gwella sgiliau staff yn eu rolau ym maes chwarae plant.

Nid yw'r mwyafrif o'r ysgolion yn rhoi mynediad i blant i diroedd yr ysgol (ar wahân i glybiau ar ôl ysgol).



5. Mater A: Poblogaeth

“ Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data am nifer y plant sy'n byw yn ardal yr Awdurdod Lleol, fel y bo modd mynd ati i asesu eu gofynion chwarae posibl. Dylai'r data roi gwybodaeth am nifer y plant mewn categorïau gwahanol a all effeithio ar eu gofynion chwarae. Dylai'r data hefyd ddangos a yw'r ardaloedd yn cael eu hystyried yn rhai dan anfantais neu ddifreintiedig ac a oes rhagolwg o'r boblogaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf ar gael ”

Yr hyn a ganfuom:

Mae gwybodaeth am y boblogaeth ar ffurf amcangyfrifon canol blwyddyn 2014 ar gael ar lefel Ward o'r amcangyfrifon Poblogaethau Wardiau ar gyfer Cymru a Lloegr, canol 2014 (ystadegau arbrofol).

Grŵp Oedran	Nifer y plant
0-3	7,973
4-7	8,458
8-12	9,911
13-15	6,294
16-17	4,433
CYFANSWM	37,069

BTrwy rannu'r wybodaeth ddemograffig uchod i lefel Ward mae modd mapio'r boblogaeth plant a phobl ifanc ar draws y Sir er mwyn dangos ble mae'r plant yn byw ac at hynny mae data ar gael mewn perthynas ag iaith, cefndir diwylliannol ac anabled.

CAM GWEITHREDU

Bydd y data a gasglwyd yn cael eu defnyddio wrth gynllunio'r ddarpariaeth chwarae a hefyd i sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau yn y manau mwyaf hygyrch a phriodol

6. Mater B: Diwallu anghenion amrywiol

“Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data ynghylch sut mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog pob plentyn i chwarae a dod ynghyd”

Yr hyn a ganfuom:

O gymharu â'r asesiad blaenorol nid oes llawer o newid ym maint y ddarpariaeth chwarae a ddarperir. Er bod yr asesiad blaenorol wedi caniatáu ar gyfer gweithio partneriaethol mwy effeithiol, mae diffyg cyllid ar gyfer datblygu cyfleoedd chwarae yn y blynyddoedd ar ôl yr asesiad cychwynnol wedi golygu na wnaethpwyd cynnydd sylweddol.

• Natur wledig

Mae cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin fel Llanegwad, Cil y Cwm a Mynydd y Garreg wedi cael cymorth gan y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn perthynas â datblygu cyfleoedd chwarae.

Mae llawer o wahanol fathau o ddarpariaeth ar gael mewn ardaloedd gwledig fel darpariaethau Mentrau Iaith, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Groundwork Cymru, clybiau ieuencid a'r Canolfannau Teuluoedd.

Fodd bynnag, ers yr asesiad blaenorol collwyd rhywfaint o'r ddarpariaeth oedd wedi'i thargedu ar ardaloedd gwledig oherwydd toriadau sylweddol i gyllid – darpariaeth ieuencid MOBI, y bws chwarae symudol, darparwyr chwarae mynediad agored Llwybrau Porffor.

Dangosir rhai o'r sylwadau a wnaeth plant a phobl ifanc ynghylch byw mewn ardaloedd gwledig isod:



“Does dim llawer o bethau i'w gwneud yn Hendy-gwyn”


“Wy'n byw yng nghefn gwlad felly does 'da fi ddim llawer i'w wneud”

“Does dim byd yn New Inn”

“Wy'n byw yn bell o bopeth”

- laith, Diwylliant, Gofalwyr Ifanc a phlant a phobl ifanc Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol**

Mae nifer o glybiau dan oruchwyliaeth yn cael eu rhedeg ar draws y sir trwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir y rhain gan y 35 o grwpiau Cylch Ti a Fi, 3 chynllun Menter laith, Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Urdd. Dyma rai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad â rhieni:




Mae man chwarae ag offer sefydlog ar y safle Sipsiwn Teithwyr a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae'r preswylwyr yn teimlo nad yw hwn yn ddigonol oherwydd oedrannau amrywiol y plant sy'n byw ar y safle.

Isel oedd y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriadau gyda gofalwyr ifanc a phlant a phobl ifanc LGBT, ac felly mae angen gwneud mwy o waith gyda'r grwpiau hyn.

- Anabledd**

Mae clybiau yn y sir sy'n diwallu anghenion chwarae plant a phobl ifanc ag anableddau. Fodd bynnag, mae lleoliad y clybiau hyn yn golygu bod angen i rieni / gofalwyr gludo eu plant gryn bellter i fanteisio ar y clybiau hyn. At hynny, mae rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ag anableddau wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'r manau chwarae ag offer sefydlog ar draws y sir. Dywedodd 11% o'r rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yn yr ymgynghoriadau fod ganddynt blentyn neu blant ag anghenion ychwanegol.



Dyweddod y gweithwyr proffesiynol nad oedd y manau chwarae ag offer sefydlog yn ddigonol wrth ddiwallu anghenion chwarae plant a phobl ifanc anabl. Mae'r safleoedd yn hygyrch, ond unwaith maent yn y parciau ni all y plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae o unrhyw fath oherwydd bod yr offer yn anaddas.

CAM GWEITHREDU

Parhau i gynorthwyo ardaloedd gwledig i ddatblygu cyfleoedd chwarae i'r plant a phobl ifanc trwy gyllid, llythyrau cefnogaeth, cyfeirio a chyingor a chyfarwyddyd

Cefnogi anghenion chwarae plant a phobl ifanc anabl mewn perthynas ag offer chwarae sefydlog a chlybiau dan oruchwyliaeth

Cynnal ymgynghoriadau ychwanegol gyda'r gymuned Sipsiwn Teithwyr, gofalwyr ifanc a phlant a phobl ifanc LGBT er mwyn canfod eu hanghenion chwarae a hamdden a'u diwallu'n unol â hynny

Parhau i gefnogi'r Clybiau Gwyliau Cymraeg trwy'r Fenter Iaith a pharhau i weithio mewn partneriaeth wrth ddarparu sesiynau chwarae yn ystod gwyliau'r haf



7. Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

“Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod y gall pob man agored yn ei ardal fod yn fannau pwysig i blant chwarae ynddynt neu fynd drwyddynt i gyrraedd ardaloedd chwarae eraill neu fannau eraill y maent yn mynd iddynt”

Yr hyn a ganfuom:

Mannau agored

Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin Asesiad Mannau Gwyrdd yn 2010. Roedd yr asesiad hwn wedi'i seilio ar ddata Cyfrifiad 2001. Er bod y manau gwyrdd wedi cael eu hasesu o ran bod yn hygyrch, nid oes dim byd sy'n nodi a yw plant yn defnyddio'r manau i chwarae. Mae'r asesiad hefyd yn canolbwyntio ar fannau gwyrdd sy'n fwy na 0.5 hecтар; fodd bynnag, fel arfer mae plant yn chwarae ar leiniau o dir llawer llai ac ar strydoedd y tu allan i'w cartrefi neu lonydd y tu ôl i'w tai. Nid yw Polisi Cynllunio Cymru'n cyfeirio at chwarae plant ar safleoedd tir llwyd; fodd bynnag, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn hybu datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.



Dyroddir cytundebau Adran 106 pan geir datblygiad o fwy na 5 annedd. Pan gynllunnir datblygiadau tai mae'n ofynnol i'r datblygwr gyfrannu trwy gytundeb Adran 106 at wahanol gyfleusterau cymunedol, ac un o'r rhain yw chwarae a hamdden.

Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff

Mae'r awdurdod yn gorfod gwneud toriadau sylweddol i'r gyllideb ac felly mae'n hybu trosglwyddiadau asedau cymunedol ar gyfer cyfleusterau hamdden. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal trafodaethau gyda Chynghorau Tref a Chymuned a gwahanol sefydliadau chwaraeon ynghylch trosglwyddo parciau, meysydd chwarae a manau amwynder. Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cyllid grant a chynghor i gefnogi trosglwyddo'r cyfleusterau hyn i reolaeth leol ac mae nifer o drosglwyddiadau wedi digwydd eisoes.

Dyweddodd 49% o'r plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriadau mai eu hoff lle i chwarae neu gymdeithasu oedd y man chwarae lleol gyda siglenni, llithrennau a phethau eraill i chwarae arnynt; roedd 35% yn ffafrio'r man glaswelltog lleol a 27% y cae pêl-droed neu faes chwaraeon.

Dyweddodd 31% o'r bobl ifanc mai eu hoff lle i gymdeithasu oedd y maes pêl-droed neu chwaraeon ac roedd 30% yn ffafrio'r man glaswelltog neu gae lleol.

Felly tynnodd yr ymgynghoriadau sylw at bwysigrwydd y manau yn y gymuned wrth ddiwallu anghenion chwarae plant a phobl ifanc. Mae nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn darparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn eu cymunedau, gan amlaf ar ffurf llefydd chwarae cyfarpar sefydlog, MUGA's ayyb. Mae'r ymgynghoriadau wedi nodi pwysigrwydd y gwagleoedd yma yn ymateb i anghenion chwarae plant a phobl ifanc. Felly, mae'n bwysig iawn bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael i gefnogi i gynnal y llefydd yma er mwyn ymateb i ofynion chwarae'r plant a phobl ifanc yn byw yn yr ardaloedd yma.

- **Cofrestr gyfredol**

Mae iLocal yn y rhan gyhoeddus ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin yn dangos ar fap o Sir Gaerfyrddin leoliad manau chwarae ag offer sefydlog, parciau sglefrio, traethau, parciau, manau agored, cyrtiau tenis a phyllau padlo. Mae gan Adran Parciau'r Awdurdod Lleol restr gynhwysfawr o leoliadau manau chwarae amldeffnydd, parciau sglefrio a manau cyfarfod sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol.

- **Asesiadau o Leoedd Chwarae**

Ar hyn o bryd nid yw offeryn Asesu Lleoedd Chwarae fel y'i nodir yn y pecyn cymorth yn cael ei ddefnyddio yn Sir Gaerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae perchnogaeth ar y lleoedd chwarae yn y dyfodol yn cael ei hadolygu. Mae datganiadau o ddi-ddordeb oddi wrth gymunedau i gymryd drosodd perchnogaeth ar asedau i fod i ddod i law erbyn 31 Mawrth 2016. Cyn gynted ag y bydd yr asedau wedi cael eu trosglwyddo ac y cytunwyd ar y berchnogaeth, mae potensial i gymunedau gael eu cynorthwyo i gynnal a chadw eu lleoedd chwarae, ac felly fel rhan o'r cymorth hwn, dylid cynnwys asesiadau o leoedd chwarae.

- **Meysydd chwarae di-fwg**

Ar hyn o bryd mae arwyddion meysydd chwarae di-fwg wedi cael eu gosod ar yr holl feysydd chwarae sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, yr ymatebion i'r ymgynghoriadau gan blant a rhieni yw bod oedolion yn smygu mewn lleoedd chwarae a sbwriel sy'n gysylltiedig â smygu'n dal i fod yn broblem ar safleoedd ag offer chwarae sefydlog. Felly mae angen gwneud mwy o waith i hybu'r cynllun di-fwg yn Sir Gaerfyrddin, o bosibl mewn partneriaeth ag Ysgolion Iach a thîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda.



- **Archwiliadau mynediad**

Mae archwiliadau mynediad yn cael eu cwblhau o ran cydymffurfiaeth lleoedd â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Fodd bynnag, nid yw manylion yr archwiliadau mynediad yn y pecyn cymorth yn cael eu cymhwyso yn Sir Gaerfyrddin.

- **Arwyddion 'Dim Gemau Pêl' / arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi tynnu i lawr yr holl arwyddion 'Dim Gemau Pêl', ond oherwydd toriadau i gyllidebau a diffyg cyllid, nid oes unrhyw arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae. Fodd bynnag, mae'r Adran Tai'n dal i ddefnyddio arwyddion 'Dim Gemau Pêl' i fynd i'r afael â phroblemau ar eu stadau tai. Mae angen i fwy o waith gael ei wneud rhwng y swyddogion tai a'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â phlant yn chwarae ar stadau tai.

CAM GWEITHREDU

Diweddarau ac adolygu ffocws yr Asesiad Manau Gwyrdd

Sicrhau y caiff y wybodaeth am leoliad cyfleusterau chwarae ei diweddarau'n rheolaidd

Cymhwyso Asesiadau o Leoedd Chwarae wrth werthuso lleoedd chwarae

Cyfraniadau cytundebau Adran 106 i ystyried cyfleoedd chwarae heblaw offer chwarae sefydlog

Gwneud mwy i hybu manau di-fwg a pheryglon smygu goddefol i iechyd a lles plant

Gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Tai i leihau'r defnydd o arwyddion 'Dim Gemau Pêl' ar draws y sir

Sicrhau yr ymgynghorir â chymunedau, plant a phobl ifanc, ac y rhoddir cymorth iddynt, yn y broses trosglwyddo asedau ac os caiff asedau eu trosglwyddo

8. Mater Ch: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth

“ Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at gynnig amrywiaeth o ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth ”

Yr hyn a ganfuom:

- **Darpariaeth dan oruchwyliaeth**

Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n ystyried y mathau canlynol o ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth:

Cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau

Meysydd chwarae antur

Ceidwaid chwarae

Darpariaeth symudol

Clybiau a grwpiau ieuencid

Sefydliadau sy'n darparu adnoddau ar gyfer y lleoliadau hyn

Darperir darpariaeth dan oruchwyliaeth ar draws y Sir i amrywiaeth o oedrannau, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae amrywiaeth o gynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau ieuencid yn y sir. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i ddatblygu Cynllun Sicrhau Ansawdd i ddarparwyr cyfleoedd chwarae fod yn rhan ohono a chydymffurfio ag ef.

Yn anffodus, ers yr asesiad cychwynnol, oherwydd toriadau sylweddol i gyllidebau, collwyd y bws chwarae symudol, bws ieuencid MOB1, y llyfrgell deganau a darpariaeth chwarae mynediad agored Llwybrau Porffor yn Sir Gaerfyrddin.

Ar hyn o bryd nid oes cyllideb a ddyrannwyd i ddatblygu mwy o ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth yn y sir.

- **Gweithgareddau hamdden strwythuredig i blant**

Gall plant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin fanteisio ar amrywiaeth o weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol i wella eu hiechyd a'u lles.

Mae Amser Stori Actif wedi cael ei ariannu trwy Grantiau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blaenorol er mwyn i blant ddatblygu sgiliau corfforol sylfaenol trwy chwarae.

Mae Cynllun Chwaraeon Sir Gaerfyrddin â chysylltiadau clir â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu trwy ddarparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.



Cam gweithredu

Sicrhau darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth o ansawdd da trwy raglen sicrhau ansawdd ar ôl i honno gael ei datblygu. A rhoi cyngor a chymorth i leoliadau ar sut i ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ac o ansawdd da

Cyllid sydd wedi'i ddyrannu trwy chwaraeon a hamdden i ystyried cyfleoedd chwarae fel prosiectau cyllido posibl



9. Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae

“Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried pa gyfleoedd chwarae sy'n golygu tâl ac i ba raddau mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y taliadau hyn wrth asesu a oes cyfleoedd chwarae digonol i blant o deuluoedd incwm isel fel y nodir yn y Cyfarwyddyd Statudol”

Yr hyn a ganfuom:

Mae darpariaeth chwarae yn y sir na chodir tâl amdani. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu sesiynau chwarae mynediad agored o'r Canolfannau Plant Integredig. Mae Groundwork Cymru hefyd yn darparu cyfleoedd chwarae mynediad agored di-dâl yn y sir. Cynigir y ddau fath hyn o ddarpariaeth mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd mawr a/neu mewn ardaloedd gwledig yn y sir.

Mae hefyd nifer o glybiau yn ystod y gwyliau a chlybiau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn y sir, ond mae'r rhain yn golygu cost i deuluoedd. Mae'r clybiau a gynhelir i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn golygu cost fach iawn, a defnyddir yr arian hwn i brynu adnoddau ac i dalu am weithgareddau a digwyddiadau.



Yn anffodus, yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae'n anodd eithriadol darparu darpariaeth ddi-dâl. Fodd bynnag, mae consesiynau ar gael i deuluoedd.

Cam gweithredu

Parhau i gyfeirio at y wybodaeth ddemograffig sy'n ymwneud ag amddifadedd, natur wledig ac anableded pan gaiff unrhyw ddarpariaeth newydd ei chynllunio ar draws Sir Gaerfyrddin

Ymchwilio i'r posibilrwydd o gofnodi cost darpariaeth yn fwy manwl a sicrhau y gofynnir am wybodaeth ynghylch cost safleoedd a chost darpariaeth

Parhau i gynorthwyo cymunedau i fanteisio ar ffrydiau cyllido a chyfeirio at wasanaethau fel CAVS i gael gwybodaeth am grantiau sydd ar gael. Darparu llythyrau cefnogaeth a chyngor a chyfarwyddyd i gymunedau sy'n datgan diddordeb mewn sefydlu darpariaeth chwarae yn eu hardaloedd

Cynorthwyo Groundwork Cymru i ganfod manau i gynnig darpariaeth chwarae mynediad agored ddi-dâl (ar sail natur wledig ac amddifadedd economaidd)

10. Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth

“Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at fynediad plant i gyfleoedd chwarae neu eu gallu i symud o gwmpas eu cymunedau”

Yr hyn a ganfuom:

Mae'r Uned Diogelwch Ffyrdd yn hwyluso llawer iawn o fentrau sy'n caniatáu i blant symud o gwmpas eu cymunedau trwy gerdded neu ar feiciau. Cedwir cofnodion o'r parthau 20mya a pharthau diogelwch ysgolion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r gallu i achub ar gyfleoedd chwarae'n cael ei ystyried a'i fesur yn uniongyrchol. Lle mae gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio, ar hyn o bryd ni chanolbwyntir yn benodol ar y gallu i achub ar gyfleoedd chwarae. Er bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud i wella diogelwch ar y ffyrdd, ni roddir ystyriaeth benodol i gyfleoedd chwarae ar hyn o bryd.



Bydd Llywodraeth Cymru'n lleihau cyllidebau ar gyfer trafndiaeth yn y flwyddyn ariannol i ddod a fydd yn cael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus i achub ar gyfleoedd chwarae.

Pan ofynnwyd i'r plant beth fyddai'n eu helpu i chwarae/cymdeithasu'n amlach, dywedodd 32% 'Dod o hyd i ffyrdd mwy diogel o groesi ffyrdd er mwyn mynd allan/symud o gwmpas' a dywedodd 15% 'trafnidiaeth i fynd yno'. Nododd 31% o'r bobl ifanc drafndiaeth ac 17% dod o hyd i ffyrdd mwy diogel o groesi ffyrdd er mwyn mynd allan. Dywedodd 76% o'r rhieni fod traffig ar y ffyrdd yn ei gwneud yn anodd i blant chwarae/cymdeithasu.

• Gwybodaeth; cyhoeddusrwydd; digwyddiadau

Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd mor helaeth ag sy'n bosibl i bob digwyddiad er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn gwybod beth sy'n digwydd ar draws y sir. Defnyddir amrywiaeth o ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth fel Twitter, Facebook, gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, gwefan Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin a datganiadau i'r wasg.

CAMAU GWEITHREDU

Sicrhau bod gan wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd adran glir ar gyfleoedd chwarae, sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd

Sicrhau y rhoddir diweddariadau i'r Swyddog Gwybodaeth Cynorthwyol trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a / neu'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae am unrhyw weithgareddau chwarae a/neu hamdden yn y sir nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys ar iLocal

Parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol (Twitter a Facebook) i hysbysebu a hyrwyddo cyfleoedd a digwyddiadau chwarae

Parhau i ymgysylltu â'r cyfryngau i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chwarae

Cynhyrchu amserlen ar gyfer y flwyddyn (Ebrill i Fawrth) i ddiweddarau'r rhan cyfleoedd chwarae ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gyda themâu misol ac awgrymiadau defnyddiol i rieni/gofalwyr

Hyrwyddo cyfleoedd chwarae mewn digwyddiadau a gynllunnir gan asiantaethau partner er mwyn tynnu sylw at hawliau plant i chwarae a phwysigrwydd chwarae i blant a phobl ifanc

11. Mater E: Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae

“Dylai'r Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth am strwythur sefydliadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda chwarae a'r gweithlu chwarae”

Yr hyn a ganfuom:

Ar hyn o bryd mae Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae'r Awdurdod Lleol wedi clustnodi cyllideb ar gyfer rhaglenni hyfforddiant tymhorol. Mae'r rhaglenni hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant gorfodol fel Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd ac ati i leoliadau gofal plant cofrestredig. Mae dau gwrs hyfforddiant ar chwarae bob tymor wedi'u cynnwys fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant i leoliadau cofrestredig a heb eu cofrestru. Yn anffodus nifer gyfyngedig o leoedd sydd ar y cyrsiau.



Yng ngoleuni'r safonau gofynnol cenedlaethol newydd ar gyfer lleoliadau cofrestredig mae'n bosibl y bydd angen yn y sir i wella sgiliau'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Bydd ymarfer cwmpasu'n rhoi arwydd o lefelau cymwysterau presennol y gweithlu ac amcangyfrif o'r niferoedd y bydd angen gwella eu sgiliau trwy gymwysterau pontio.

CAM GWEITHREDU

Ymarfer cwmpasu blynyddol o'r gweithlu wedi'i gwblhau er mwyn cadw cofrestr gyfredol o wybodaeth ynghylch y gweithlu chwarae.

Angen cyllid i ddarparu cymhwyster pontio o'r Blynyddoedd Cynnar i Waith Chwarae i weithwyr chwarae ar draws y sir (h.y. byddai 6 gweithiwr chwarae yn costio £5000)

Y Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae i gynnig 2 gwrs chwarae bob tymor fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant

12. Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys

“Dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n eang am farn plant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill am ddarpariaeth hamdden a chwarae. Dylai hefyd geisio cynnwys y gymuned gyfan er mwyn creu cymunedau sy'n croesawu cyfleoedd chwarae”

Yr hyn a ganfuom:

Mae gwahanol grwpiau ar draws y sir yn ymgynghori â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Ymgynghorir â phlant trwy gynghorau ysgol, sesiynau chwarae mynediad agored, Canolfannau Teuluoedd, darpariaeth ieuencid. Ymgynghorir â rhieni a gofalwyr trwy ysgolion, Canolfannau Teuluoedd (Llais rhieni), ac arolygon Snap ar lein.

At hynny gwneir gwaith ymgysylltu â chymunedau fel rhan o Brosiect Cymunedau yn Gyntaf, ac mae cynrychiolydd o'r rhaglen hon yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.



Mae ymgynghoriadau â rhieni at ddibenion yr asesiad hwn wedi dangos bod ar lawer o rieni ofn gwirioneddol dieithriaid a phedoffiliaid a bod yr ofnau hyn yn rhwystro rhieni rhag rhoi i'w plant y rhyddid i chwarae'n annibynnol heb oruchwyliaeth oedolion. At hynny, mae rhai rhieni wedi dweud eu bod yn ofni mynd â'u plant i barciau lleol am fod arnynt ofn bod 'dieithriaid' neu 'bedoffiliaid' yn gwyllo eu plant. Felly mae angen gwneud gwaith gyda rhieni/gofalwyr yn y gymuned i'w dysgu sut i gadw eu plant yn ddiogel heb amharu ar eu hawliau i chwarae a rhyddid.

CAMAU GWEITHREDU

Parhau i ymgysylltu mwy gyda rhieni a gofalwyr wrth fynd i'r afael â'r ofn sydd ganddynt ynghylch perygl dieithriaid yn Sir Gaerfyrddin

Dosbarthu'r Pecyn Cymorth Cymunedol: Datblygu a Rheoli Mannau Chwarae i ardaloedd dynodedig yn y Sir

13. Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol

“

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried pob un o'i agendâu polisi o ran eu heffaith bosibl ar gyfleoedd plant i chwarae a chynnwys targedau a chamau gweithredu i wella cyfleoedd chwarae i blant ym mhob strategaeth a pholisi o'r fath ”

Yr hyn a ganfuom:

Datblygwyd y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan gydnabod pwysigrwydd gweithio partneriaethol trawsadrannol wrth asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae i blant. O ganlyniad i'r Aseiad cychwynnol o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mae gweithio partneriaethol wedi gwella'n fawr ac erbyn hyn gwelir cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, mae nifer o bolisiau nad ydynt yn cyfeirio'n benodol at gyfleoedd chwarae'n uniongyrchol. Er y cydnabyddir pwysigrwydd cyfleoedd chwarae yn y meysydd polisi hyn, mae'n anodd eithriadol ac yn amlach na pheidio yn amhosibl ail-alinio'r cyllidebau presennol ar draws polisiau ac agendau er mwyn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol fel y'u nodir trwy'r Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.



CAMAU GWEITHREDU

Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion wrth eu cynorthwyo i agor tiroedd ysgolion y tu allan i oriau addysgu; a darparu hyfforddiant a chymorth staff chwarae wrth ddatblygu polisi chwarae

Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Adran Cynllunio er mwyn sicrhau y caiff cyfleoedd plant i chwarae eu gwarchod a'u hystyried mewn unrhyw ddatblygiadau newydd ar draws y sir

Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r adrannau traffig a thrafnidiaeth er mwyn sicrhau ffyrdd hygyrch a diogel o achub ar gyfleoedd chwarae

Parhau i gysylltu â'r Rheolwr Polisi a Phartneriaeth Corfforaethol wrth sicrhau bod yr holl adrannau perthnasol yn y Strategaeth Gymunedol Integredig a adolygwyd yn ystyried cyfleoedd chwarae

Gweithio mewn partneriaeth â Thîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda i ddarparu cyfleoedd chwarae fel ffordd o gyfrannu at iechyd a lles plant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Mentrau Cymorth i Deuluoedd i gydnabod pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a'r buddion i'w lles emosiynol, meddyliol a chorfforol ac ar yr un pryd lliniaru effeithiau negyddol tlodi ac amddifadedd

14. Casgliad

Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 wedi nodi llawer o enghreifftiau o arfer da o'r ffordd y rhoddir sylw i gyfleoedd chwarae i blant ar draws y sir. Ym mhob un o'r Materion, mae'r Awdurdod Lleol a sefydliadau partner yn ceisio bodloni'r meini prawf ac yn ymwybodol o bwysigrwydd y meini prawf hyn wrth ddiwallu anghenion chwarae'r plant.



Y prif rwystr i ddiwallu anghenion chwarae plant a phobl ifanc yw absenoldeb unrhyw ffrwd gyllido wedi'i dyrannu i wneud mwy i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Lle mae adrannau'n darparu cyfleoedd

chwarae, maent yn gwneud hynny gyda chapasiti ariannol cyfyngedig iawn ac yn cael trafferth i gynnal y ddarpariaeth bresennol, heb sôn am ddatblygu cyfleoedd chwarae newydd. Mae'r asesiad wedi nodi llawer o flaenoriaethau i fwrw ymlaen â hwy yn 2016/2017 er mwyn diwallu anghenion chwarae plant a phobl ifanc. Nodir y blaenoriaethau hyn yn y Cynllun Gweithredu 2016/2017.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriadau wedi dangos rhwystrau cyffredin i blant/pobl ifanc a rhieni a gofalwyr. Nodir y rhwystrau hyn yn y Cynllun Gweithredu:

- Smygu a sbwriel sy'n gysylltiedig â smygu
- Diogelwch ffyrdd/trafnidiaeth
- Baw cŵn
- Ofn dieithriad / pedoffiliaid

Ar hyn o bryd, oherwydd toriadau i gyllidebau a chyfyngiadau ariannol, y brif flaenoriaeth fydd cynnal y ddarpariaeth bresennol a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol a chynorthwyo cymunedau i gymryd drosodd cyfrifoldeb am eu cyfleoedd chwarae. At hynny, yng ngoleuni'r ffaith bod cyfleoedd chwarae'n lleihau mewn cymunedau, mae cyfleusterau eraill yn y gymuned, sef tiroedd ysgolion, sydd â'r potensial i ddiwallu anghenion chwarae plant. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ag ysgolion nad oeddent yn caniatáu mynediad i diroedd ysgolion y tu allan i oriau addysgu. Felly mae hwn yn faes y mae angen ymchwilio iddo ymhellach gyda chynrychiolwyr ysgolion.

Felly, mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer 2016 wedi darparu llwyfan y mae tystiolaeth ar gael arni er mwyn datblygu cyfleoedd chwarae newydd a gwarchod y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes.

15. Y Ffordd Ymlaen

Mae Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016/2017 wedi cael ei ddatblygu ar sail yr adran 'Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu' yn y ffurflen asesu. Cafodd y camau gweithredu hyn eu nodi gan aelodau o'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chytunwyd ar y Cynllun Gweithredu terfynol gan aelodau o'r grŵp a thrwy brosesau gwleidyddol yr Awdurdod Lleol.

Yn nhermau cyllid i fynd i'r afael â'r camau gweithredu, mae angen i'r partneriaid gydweithio wrth gael gafael ar gyllid ar gyfer mentrau chwarae a mentrau sy'n gysylltiedig â chyfleoedd chwarae. Mae gwaith wedi dechrau ar hyn trwy'r cyfraniadau ariannol at gyfleoedd chwarae a hamdden trwy gytundebau Adran 106. Mae cyfle hefyd i gydweithio'n agosach ag ysgolion a chymunedau wrth fynd i'r afael â chyfleoedd chwarae trwy brosesau cost isel/di-dâl.

Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n parhau i gyfarfod bob tymor i fonitro cynnydd y Cynllun Gweithredu. Bydd y Camau Gweithredu'n cael eu diweddarau ar sail y cynnydd a wneir.



Am gwybodaeth pellach cysylltwch a

Caryl Alban

Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae

01267246555
calban@sirgar.gov.uk